



Adroddiad Effaith

2022/23





0808 196 7273



Cyngor Ffoaduriaid Cymru yw dechrau diwedd y trawma. Dyma lle mae'r rhedeg yn stopio a gall adferiad ac iachâd ddechrau.

06 Croeso

10 Cymorth Lloches

12 Gwasanaeth Noddfa
Cymru

14 Prosiect Wcrain

16 Canllawiau Lloches

18 Ailsefydlu

20 Prosiect Symud Ymlaen

22 Prosiect Ailsefydlu
Awdurdod Lleol Rhondda
Cynon Taf

24 Prosiect Tai a Digartrefedd

26 Prosiect Chwarae

28 Addysg a Chyflogadwyedd

30 Gwirfoddoli

32 Ymgysylltu a Dylanwadu

34 Wythnos Ffoaduriaid Cymru

36 Gwobrau Cenedl Noddfa

38 Chwalu'r Chwedlau

40 Dylanwadu ar Randdeiliaid
Allweddol

42 Cyllid ac Incwm

48 Neges gan ein Prif Swyddog Gweithredol

50 Partneriaid



Symudiadau

Croeso


Cyngor Ffoaduriaid Cymru yw dechrau diwedd y trawma. Dyma lle mae'r rhedeg yn stopio a gall adferiad ac iachâd ddechrau.

Ers 1990, mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi bod yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru i greu dyfodol newydd yng Nghymru. O'n swyddfeydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, rydym yn gwasanaethu ceiswyr lloches a ffoaduriaid ledled Cymru gyda gwasanaethau arbenigol gan gynnwys:

Cefnogaeth tai a symud ymlaen, gwersi Saesneg a Chymraeg, cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant sgiliau cyflogaeth, cymorth i lywio'r system fudo, mynediad at ofal iechyd ac ymyrraeth iechyd meddwl, cyfeiriadau at gyngor cyfreithiol, banciau bwyd, cymorth ariannol brys, a mannau chwarae ar gyfer plant. Rydym yn

gweithio ar y cyd ag ystod eang o sefydliadau yn y sectorau cymunedol, gwirfoddol a statudol i gynyddu ein heffaith a gwneud i'n cyllid fynd ymhellach, tra'n sicrhau bod ein cleientiaid yn gallu ffynnu.

Diolch i'ch cefnogaeth, gallwn helpu pobl i deimlo'n llai ynysig ac yn fwy gwybodus. Gallwn roi nerth iddynt dros eu dyfodol a'r hyder i siarad yn gyhoeddus ar faterion sy'n effeithio arnynt. Gallwn eu cefnogi ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau, eu trin ag urddas a pharch, dangos croeso a gwerthfawrogiad iddynt, a gwneud gwahaniaeth diriaethol.



Ein Gweledigaeth

Creu Cymru lle mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu croesawu, eu parchu, a lle mae ganddynt fynediad at amddiffyniad, diogelwch ac urddas.



Ein Cenhadaeth

Gwella bywydau ceiswyr lloches a ffoaduriaid trwy ddarparu cyngor arbenigol a chymorth ymarferol a siarad allan er mwyn dylanwadu ar ganfyddiad y cyhoedd mewn ffordd gadarnhaol.



Ein Gwerthoedd

Rydym yn hyrwyddo hawliau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn galluogi ac yn hyrwyddo lleisiau ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Rydym yn darparu llais cryf, annibynnol, yn dangos arweinyddiaeth, yn meithrin gallu ac yn gweithio ar y cyd. Rydym yn enghraifft o ragoriaeth o ran darparu gwasanaethau, datblygu staff, cyfrifoldeb cyllidol, a llywodraethu.



Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches sydd wrth wraidd ein cenhadaeth. Mae popeth rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar rymuso a chefnogi pobl sydd wedi ceisio noddfa yma, ar ôl goroesi erledigaeth, rhyfel a dadleoli gorfodol.

Ymddiriedir y cyfrifoldeb i Gyngor Ffoaduriaid Cymru i fynd i'r afael â'r her gymhleth a dyrys hon, wrth i ni geisio gwireddu'r weledigaeth o wneud Cymru'n Genedl Noddfa. Yn ystod y flwyddyn hon, mae ein helusen wedi ymateb yn frwdfrydig i'r gwrthdaro yn yr Wcrain, rydym wedi ymgyrchu yn erbyn y Bil Ymfudo Anghyfreithlon ac wedi sicrhau bod lleisiau pobl o brofiad byw yn cael eu clywed gan lunwyr polisi.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir benderfyniad ein staff a'n gwirfoddolwyr i ddefnyddio'r holl wybodaeth a gasglwyd ganddynt, gan gysylltu â cheiswyr lloches a ffoaduriaid ar bob cam o'u taith. Trwy brosiectau chwarae, cymorth gyda thai, sgiliau iaith a chyflogaeth, eiriolaeth a dathlu, mae gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru un nod – galluogi ffoaduriaid i fyw bywyd bodlon a phwrpasol, gan wneud cyfraniadau gwerthfawr eu hunain i gymdeithas.

Ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n cyllidwyr, a thalu teyrnged i bawb sydd wedi gweithio mor galed drwy gydol y flwyddyn ar y prosiectau a'r mentrau y manylir arnynt yn yr adroddiad hwn.

Rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol – diolch.



Harry Iles
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr



Cymorth Lloches

Gwasanaeth Noddfa Cymru: Cyfiawnder

**Partneriaid: Llywodraeth Cymru,
Comic Relief.**

**Cefnogwyd
1,010 o geiswyr noddfa
o 78 o wledydd yn
siarad 53 o ieithoedd**

**Darperir 5,709
o sesiynau cymorth**

**Cefnogir 319 o
ddibynyddion yn
anuniongyrchol indirectly**

**Nodwyd 5% o gleientiaid
bod ganddynt alluoedd
gwahanol**

Roedd blwyddyn ariannol 2022-23 yn llawn heriau i Wasanaeth Noddfa Cymru. O effaith polisi terfyniadau'r Swyddfa Gartref, ansicrwydd ariannu, a rhethreg gynyddol elyniaethus ynghylch mudo a ddaeth i ben gyda'r "Ddeddf Ymfudo Anghyfreithlon" fel y'i gelwir ym mis Mawrth 2023, bu'r daith yn un llafurus ac ar adegau yn flinedig. Er gwaethaf yr heriau hyn, arhosodd Gwasanaeth Noddfa Cymru yn gadarn yn ei ymrwymiad i ddarparu cymorth hanfodol. Sicrhodd ein sesiynau galw heibio corfforol a'n gwasanaethau apwyntiadau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam y gallai ceiswyr lloches gael mynediad i gyngor arbenigol annibynnol am ddim beth bynnag fo'u hanghenion iaith, eu lleoliad, neu eu cysylltedd digidol.

Yr her fwyaf aruthrol i'r WSS fu'r argyfwng cymorth cyfreithiol parhaus yn y DU, sy'n atal ceiswyr lloches rhag cael mynediad i gynrychiolaeth gyfreithiol am ddim neu am gost isel. Mae'r sefyllfa'n arbennig o ddifrifol yng Ngogledd Cymru, lle mai dim ond un cyfreithiwr cymorth cyfreithiol

mewnfudo sy'n gweithredu. Mae'r WSS a'i bartneriaid wedi camu i'r adwy i lenwi'r bylchau, gan gynnig gwasanaeth cyngor cyfreithiol mewnfudo rheoledig i bobl nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Darperir cymorth eiriolaeth arbenigol, gan gynnwys cymorth cymheiriaid ac ymgysylltu ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol, i geiswyr lloches ifanc. Mae fforwm eiriolaeth misol wedi dod yn llwyfan i geiswyr lloches rannu profiadau a chodi pryderon, gan feithrin ymdeimlad o gymuned a grymuso.

Mae ein cyngor gwaith achos yn ymestyn y tu hwnt i faterion cyfreithiol, gan gwmpasu cymorth i lywio'r system fewnfudo a lloches, gan sicrhau mynediad at ofal iechyd, addysg, a hyfforddiant iaith. Mae eiriolaeth reolaidd gyda'r Swyddfa Gartref ac asiantaethau eraill, gan ymhelaethu ar leisiau ceiswyr lloches, wedi dod yn gonglfaen i'n gwaith. Yn arbennig o nodedig yw'r gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu i uniglion sy'n wynebu digartrefedd ar ôl cael penderfyniad negyddol ynghylch cais am loches.





Prosiect Wcrain: Addasrwydd

Partner: Llywodraeth Cymru.

Unigolion a gefnogwyd: 1,369

Fel miliynau o bobl ledled Cymru a'r DU, buom yn gwylio'r adroddiadau newyddion am ymosodiad Rwsia ar yr Wcrain ym mis Chwefror 2022 gyda braw ac anghrediniaeth. Yn ogystal â theimlo pryder aruthrol am bobl yr Wcrain, roeddem hefyd yn gwybod y byddai'r gwrthdaro hwn yn debygol o olygu mewnlifiad mawr o bobl yn ceisio noddfa a diogelwch yng Nghymru. Symudon ni yn gyflym i'w derbyn, gan sefydlu ein Prosiect Wcrain o weithwyr achos dynodedig. Erbyn dechrau mis Ebrill 2022, roeddem wedi dechrau cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei nod i groesawu 1,000 o ffoaduriaid o'r Wcrain.

Ni ellir gorbwysleisio her, maint ac arwyddocâd y prosiect hwn. Roedd rhaid i ni fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol pobl a oedd yn cyrraedd Cymru o Wcrain, megis mynediad lleoliadau tai at ofal iechyd, ac mewn ffordd a oedd yn eu grymuso, yn rhoi llais iddynt, ac yn eu cynnwys mewn trafodaethau a fyddai'n llunio eu dyfodol.

Roedd maint, hylifedd a brys sefyllfa'r Wcrain yn golygu bod angen i ni addasu'n ddeinamig i'r heriau amlochrog o gefnogi'r newydd-ddyfodiaid hyn i Gymru. Er enghraifft, oherwydd eu lefelau uchel o addysg a sgiliau Saesneg, roedd llawer o ffoaduriaid o Wcrain yn gallu trosglwyddo'n gyflym i gyflogaeth ar ôl cyrraedd, gan wasgaru i'r gymuned Wcrain ehangach a oedd eisoes wedi'i sefydlu yng Nghymru. Roedd y duedd hon yn golygu bod angen newid yn ein hymagwedd, a rhoddon ni bwyslais newydd ar allgymorth cymunedol.

Wrth i'r flwyddyn gyntaf fynd rhagddi, daethom yn fwy creadigol a rhagweithiol wrth ymgysylltu. Trodd ein ffocws o weld anghenion uniongyrchol i adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth. Mae ein presenoldeb mewn digwyddiadau ac ymgysylltu wyneb yn wyneb, megis llety cychwynnol a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru, wedi ein helpu i bontio bylchau a meithrin cysylltiadau.

Mae Prosiect Wcrain wedi bod yn esiampl ddisglair o gyflawniad i Gyngor Ffoaduriaid Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n dyst i sgil, addasrwydd ac arloesedd ein staff a'n partneriaid.

“Clywsom am eich sefydliad gan ffrind sy'n byw ym Merthyr Tudful ac anfonodd ein gweithwyr cymorth lleol eich manylion cyswllt mewn e-bost atom. Mae cefnogaeth wych wedi dod i law...rydym eisiau mynegi ein diolch am eich cefnogaeth a'ch gwasanaeth proffesiynol.”

Canllawiau Lloches: Doethineb

**Hyfforddwyd 14 ao
dywyswyr lloches
mewn 13 o ieithoedd**

**Cyfeiriodd 70 o geiswyr
lloches at y rhaglen**

**Cyflwynwyd 80 o
sesiynau cymorth**

Mae'r prosiect Canllawiau Lloches yn paru newydd-ddyfodiaid i Gymru â chyfoedion hyfforddedig sydd eisoes wedi mynd drwy'r broses lloches. Mae'r manteision yn ddeublyg: gall ceiswyr lloches siarad â rhywun sydd "union fel nhw" sydd wedi llwyddo i ymdopi â heriau ymarferol ac emosiynol ceisio lloches yng Nghymru, tra bod y tywyswyr yn teimlo'n ddefnyddiol drwy roi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau.

Cawsom atgyfeiriadau ar gyfer y prosiect Canllawiau Lloches gan sefydliadau partner fel Oasis a sawl cyfreithiwr. Ychwanegodd Clearsprings Ready Homes wybodaeth am y canllawiau mewn pecynnau croeso. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru hefyd wedi mynegi eu brwdfrydedd dros y prosiect.

Roedd y prosiect Canllawiau Lloches yn wynebu sawl rhwystr. Cyflwynwyd bron pob un o'r sesiynau ar-lein, a oedd yn broblem i rai cleientiaid heb fynediad at wifi na data yn eu llety a ddarperir gan y Swyddfa Gartref. Byddai gallu cynnig mwy o sesiynau arweiniad grŵp neu unigol, ynghyd â gwell mynediad i'r rhyngwrdd, yn lliniaru'r mater hwn. Roedd heriau capasiti a throsiant hefyd i'r tywyswyr gwirfoddol, a fyddai'n aml yn symud ymlaen i swyddi newydd a lleoliadau gwahanol yn y DU unwaith y byddai eu hawliadau ffoaduriaid yn llwyddiannus.

Mae'r prosiect wedi bod yn gymaint o lwyddiant fel bod sefydliadau eraill ar draws y DU wedi sefydlu eu Canllawiau Lloches eu hunain yn annibynnol, wedi'u modelu ar brosiect Cyngor Ffoaduriaid Cymru. Mae hyn wedi ein helpu i gynnig cefnogaeth barhaus gan yr arweinwyr i gleientiaid sydd wedi cael eu symud i ffwrdd o Gymru.

“

Mae hyn wedi bod mor ddefnyddiol, rydw i'n gwybod nawr am y tro cyntaf beth sy'n mynd ymlaen, cyn hyn fe wnes i ei adael i bobl eraill mynd ati a nodio fy mhen

**Canolwr Rhaglen y
Canllaw Lloches**

”





Ailsefydlu

Prosiect Symud Ymlaen: Tosturi

Partneriaid: Migrant Help, Sefydliad Oak, Llywodraeth Cymru, a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Helpwyd 1,546 o ymgeiswyr a'u teuluoedd â chaniatâd diweddar.

Darparwyd 3,763 o sesiynau wyneb yn wyneb a 2,672 o apwyntiadau dilynol dros y ffôn ac e-bost yn rhoi cyngor a chymorth.

Atgyfeiriwyd 406 o ddefnyddwyr gwasanaeth at asiantaethau partner.


Mae empathi a thosturi tuag at y bobl rydyn ni'n eu helpu wrth wraidd ein holl ymdrechion, ac nid oes unrhyw brosiect yn dangos y rhinweddau hyn yn well na'r fenter Symud Ymlaen. Er gwaethaf gallu cyfyngedig, cyfyngiadau amser tynn ac angen cynyddol, mae'r fenter hon wedi cael effaith ddofn yn barhaus.

Gan weithio'n ddi-dor ar draws ein pedair swyddfa, mae ein tîm Symud Ymlaen yn darparu cyngor a chymorth ar fudd-daliadau, hawliau, mynediad i lety, cymorth swydd a sefydlogrwydd ariannol.

Ni ellir gorbwysleisio'r her o weithredu'r gwasanaeth hwn yng nghyd-destun argyfwng tai fforddiadwy eithafol ledled Cymru. Mae cyfyngiadau llym y prosiect hwn wedi golygu bod rhaid i'n tîm chwilio am ffyrdd arloesol o fynd i'r afael ag anghenion unigryw ein cleientiaid. Arweiniodd hyn at ehangu ein partneriaethau ag awdurdodau lleol, gan arwain at gefnogaeth o fwy na 1,500 o ffoaduriaid.

Wrth wraidd ein cenhadaeth yw'r ymrwymiad i godi ymwybyddiaeth am y cyfnod gras o 28 diwrnod y mae'r Swyddfa Gartref yn ei roi i ffoaduriaid sydd newydd gael caniatâd. Mae'r tîm Symud Ymlaen yn arwain unigolion yn ofalus trwy gymhlethdodau'r broses hon. Gan gydnabod y straen sy'n gysylltiedig â llywio'r broses anghyfarwydd hwn, mae ein tîm yn darparu cyngor ac arweiniad i sicrhau bod ein cleientiaid yn gallu wynebu heriau'n hyderus, gan wybod ein bod yn eu cefnogi. Rydym yn gwneud sylwadau ar ran ein cleientiaid, yn enwedig y rhai sy'n wynebu cael eu troi allan, gan hyrwyddo eu hawliau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae ein heiriolaeth yn ymestyn i benderfyniadau heriol i gleientiaid sydd â gwendidau mwy diffiniedig, megis unigolion LGBTQi+ a phobl sy'n byw gyda salwch cronig, anabledau neu broblemau iechyd meddwl.

Mae cyfarfodydd wythnosol yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng ein gweithwyr achos a phartneriaid allanol allweddol. Mae'r dull hwn yn gwella arbenigedd ein tîm, ac hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i'n hasiantaethau partner.



Rydych chi'n bobl anhygoel, diolch am yr holl waith caled ac am ein helpu ni. Rydw i'n falch fy mod i wedi cwrdd â chi. Rydych chi'n garedig iawn ac yn gyfeillgar. Doeddwn i ddim yn gallu siarad Saesneg ddwy flynedd yn ôl, felly allwn i ddim gwneud dim byd. Ac fe wnaethoch chi fy helpu gyda phopeth ar yr amser anoddaf. Diolch yn fawr iawn.



Prosiect Ailsefydlu Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf: Parodrwydd

Partner: Awdurdod Lleol RCT.

Ailsefydlwyd **51** o bobl o Syria ac Afghanistan

Roedd ansefydlogrwydd byd-eang cynyddol yn golygu bod mwy o bobl nag erioed angen ein cymorth. Ehangodd ein partneriaeth ag Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yn sylweddol, gan dyfu o bum teulu o Afghanistan yn 2021-22 i gefnogi 36 o bobl o dan gynllun adsefydlu Afghanistan a 15 o unigolion o dan gynllun adsefydlu Syria. Gall heriau cyflwyno'r prosiect a chefnogi'r bobl sy'n dibynnu arno fod yn frawychus. Gall iaith fod yn rhwystr sylweddol i integreiddio o fewn y gymuned ehangach, a dyna pam mae ein staff yn gweithio mor galed i annog pobl i gofrestru ac aros mewn gwersi Saesneg. Weithiau gall cleientiaid fod yn siomedig gyda maint eu cartref a maint eu buddion; felly mae rheoli disgwyliadau a chyfathrebu'n glir yn flaenoriaethau parhaus. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus ac yn werth

chweil. Mae'r rhan fwyaf o oedolion ym mhrosiect RhCT wedi gallu sicrhau gwaith llawn-amser neu ran-amser a dod yn fwy hunangynhaliol.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, helpodd ein staff un unigolyn i gael trwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, gan ganiatáu iddynt weithio mewn diogelwch preifat. Llwyddwyd hefyd i gael y Taliad Annibyniaeth Bersonol ar gyfer dau unigolyn ag anableddau, gan wella'n sylweddol eu llesiant a'u gallu i integreiddio i'w cartref newydd. Nid ydym byth yn fwy balch nac yn hapusach na phan all ein cleientiaid adael y cynllun oherwydd nad oes angen ein cefnogaeth arnynt mwyach. Rhwng Mai 2021 a Medi 2022, dymunwyd "pob lwc!" i saith teulu a gafodd Ganiatâd Amhenodol i Aros.

Prosiect Tai a Digartrefedd: Gwybodaeth

Partner: Sefydliad Oak.

**Mynychwyd 104 o
gleientiaid 9 fforwm tai yng
Nghaerdydd ac ar-lein**

**Cynhaliwyd 11 cyfarfod
misol gyda Thîm Opsiynau
Tai/Atal Digartrefedd Cyngor
Caerdydd**

Yng Nghymru, mae nifer y bobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref i awdurdodau lleol, yn ogystal â'r rhai mewn llety dros dro, wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed yn ystod y cyfnod hwn. Yn y cyfamser, mae'r sector rhentu preifat wedi codi'n sydyn o ran pris a rhwystrau ychwanegol, megis y gofyniad am warantwyr, talu sawl mis o rent ymlaen llaw, ac mae gwiriadau isafswm incwm wedi gwneud rhentu'n fwyfwy anhygyrch i geiswyr lloches.

Nodon ni angen brys i rannu gwybodaeth gywir, ymarferol, dibynadwy am opsiynau tai gyda chleientiaid a oedd yn aml yn ddryslyd oherwydd cymhlethdod y mater a chyffredinolrwydd gwybodaeth anghywir yn cylchredeg mewn rhwydweithiau cymunedol. Roeddem hefyd yn gwybod y byddai ein hymdrechion eiriolaeth gyda Llywodraeth Cymru yn elwa ar fwy

o waith ymchwil wedi'i dargedu a mwy o gydweithio â sefydliadau eraill sy'n gweithio ar y mater hwn. Mae ein partneriaeth gyda'r Oak Foundation yn mynd i'r afael â'r holl ofynion hyn.

Diolch i'r prosiect hwn, roeddem yn gallu darparu fforymau tai llawn gwybodaeth ar gyfer y bobl rydym yn eu cefnogi, wyneb yn wyneb ac ar-lein, tra hefyd yn cynnal ymchwil ac arolygon i sicrhau bod ein ymgysylltiadau ar faterion tai a digartrefedd â Llywodraeth Cymru, y cyfryngau a rhanddeiliaid pwysig eraill yn cael eu hategu gan ffeithiau ac ystadegau.

Mynychodd dros 100 o bobl y naw fforwm tai a drefnwyd gennym yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Fe wnaethom hysbysu mynychwyr am eu hawliau tai, egluro eu hopsiynau, a herio a chwalu chwedlau. I'r rhai na allant fynychu ein fforymau, cynhyrchwyd cyfoeth o ddeunydd gwybodaeth ar dai yn Saesneg, Arabeg, Farsi, a Cwrdeg Sorani.

Fe wnaethom ehangu ein gwaith allgymorth a chydweithio â'n partneriaid. Er enghraifft, arweiniodd ein cyfarfodydd gyda Chyngor Caerdydd at gytundeb pwysig ar broses atgyfeirio newydd. Gwnaethom hefyd negodi cytundebau atgyfeirio gyda Thai Cymunedol Green Bridge a Thai Taf ac ymuno â Chlymblaid Cartrefi i Bawb Cymru.

“

Diolch am rannu'r wybodaeth yma gyda fi. Gallaf fynd allan nawr i geisio dod o hyd i rywbeth i mi fy hun. Does neb wedi cymryd yr amser i egluro pethau i mi o'r blaen, felly doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud na ble i fynd. Nawr rwy'n gwybod ac mae'r cyfan yn gwneud synnwyr i mi. ”



Prosiect Chwarae: Llawenydd

**Partner: Plant Mewn Angen,
Cymdeithas Tai Wales & West.**

Dychmygwch olygfa o anhrefn hapus: grwpiau o blant bach yn rhedeg o gwmpas ystafell lachar, liwgar, yn taflu posau a theganau ar y llawr ac yn erlid ei gilydd mewn ffitiau o chwerthin. Mewn cornel dawelach, mae plant hŷn yn darllen llyfrau, yn dysgu caneuon neu'n tynnu lluniau tra bod eu mamau'n gwyllo gyda balchder wrth iddynt rannu paned o goffi a sgwrs.

Mae ein Prosiect Chwarae yn ymwneud â rhoi lle diogel i blant chwarae, gwneud ffrindiau, mwynhau a chymryd rhan mewn profiadau newydd, cadarnhaol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, croesawodd y rhaglen fwy na 350 o blant i'n sesiynau chwarae rheolaidd yng Nghanolfan y Drindod yng Nghaerdydd. Mwynhaodd y plant amser chwarae rheolaidd gyda llu o gemau a theganau, yn ogystal â gweithgareddau arbennig megis diwrnodau sinema, Amser Rhigymau, gweithdai celf creadigol gydag Artes Mundi, sesiynau tylino gyda Mudiad Meithrin Babanod, a sesiynau gyda Ti A Fi yn defnyddio pypedau, cerddoriaeth, dawnys a chrefftau i ddysgu Cymraeg i blant a'u rhieni.

Aethom hefyd â phlant a'u teuluoedd ar deithiau maes i'r Amgueddfa

Genedlaethol yng Nghaerdydd, Gwlyptiroedd Casnewydd, Celf ym Mharc Bute, yr Ysgol Goedwig yn Global Gardens, a Chastell Caerdydd. Aethant i gyngerdd yn Neuadd Dewi Sant a chynhaliwyd sesiynau Cyswllt â Natur a diwrnodau Gemau yn y Parc yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae cyfranogwyr ein Prosiect Chwarae wrth eu bodd yn croesawu profiadau newydd, o ddysgu sut i weithredu microsgop yn yr amgueddfa, i ganu yn Gymraeg, i ddod yn gyfarwyddwyr ifanc trwy brosiect chwe wythnos Artes Mundi gwneud ffilmiau. Gall y cyfleoedd hyn gynyddu eu hyder, eu helpu i oresgyn trawma, darganfod talentau newydd, gwneud ffrindiau newydd, a mwynhau yn eu cartref newydd.

“

Y rhan orau... yw
bod gyda fy ffrindiau

- B, 10 mlwydd oed

”

**Ymunodd 357 o blant o
207 o deuluoedd â 136 o
sesiynau chwarae**

98 o ymweliadau teulu

**Darprawyd 24 sesiwn
meithrin yn y Gymraeg
gyda Ti a Fi**

**Darparwyd 660 o
degannau, 42 o becynnau
gweithgaredd/crefft, 97 o
becynnau a 46 o lyfrau
dwyieithog mewn ieithoedd
y teulu.**

**Darparwyd 312 o
atgyfeiriadau at
asiantaethau eraill am
gymorth ychwanegol**



Addysg a Chyflogadwyedd: Cyfle

“

Fe wnaeth Cyngor Ffoaduriaid Cymru fy nghefnogi i ddiweddar fy CV, yna fy helpu i baratoi ar gyfer nifer o gyfweiliadau nes i mi lwyddo i gael cynnig swydd Technegydd Addysgu yn fy maes arbenigedd gyda Phrifysgol Caerdydd.

- Lizan (Cwrdistan)

”

**Cefnogwyd 327 o
gleientiaid yn uniongyrchol
yn ystod y cyfnod hwn.**

**Darparwyd 1,497 o
sesiynau cymorth drwy
ebost, ffôn, galwad fideo
neu wyneb yn wyneb.**

**Darparwyd 65 o Weithdai
Cyflogadwyedd**

**Darparwyd 3 gweithdy
IKEA UPPNA gan arwain at
10 contract cyflogadwyedd
parhaol**

**91 o atgyfeiriadau i Gyrfa
Cymru am gyngor, cymorth
cyflogadwyedd a chyllid**

**Partneriaid: Llywodraeth Cymru,
IKEA, Coleg Caerdydd a'r Fro ac eraill.**

Moment hollbwysig i'n tîm Addysg a Chyflogadwyedd oedd y digwyddiad "Gwaith Sy'n Gweithio i Bawb" ym mis Hydref 2022, a gynhaliwyd gan Ysgol Busnes Caerdydd ac agorwyd gan Brif Weinidog Mark Drakeford. Daeth y cynulliad hwn â rhanddeiliaid amrywiol ynghyd, gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraethau lleol a chenedlaethol, gwasanaethau cymorth i ffoaduriaid, menter breifat ac addysg uwch. Chwaraeodd ein tîm Addysg a Chyflogadwyedd rôl ganolog wrth drefnu'r digwyddiad.

Daeth y flwyddyn â chynnydd sylweddol yn y ceiswyr lloches a oedd yn cyrchu ein gwasanaethau, yn enwedig o'r Wcrain. Ymatebon ni i'r her hon yn uniongyrchol, gan ddarparu bron i ddwbl nifer y gweithdai cyflogadwyedd. Cyflwynwyd system newydd i ddarparu cyngor wedi'i deilwra sy'n benodol i'r sector ac i hyrwyddo swyddi gwag, cyrsiau hyfforddi, a chyfleoedd gwirfoddoli i ffoaduriaid. Hefyd, ehangwyd y tîm, gan gyflogi Swyddog Cyflogadwyedd Wcreineg a Rwsieg.

Roedd partneriaeth UPPNA gydag IKEA yn llwyddiant parhaus. Y cyfnod hwn, cafodd 24 o ffoaduriaid fudd o gyngor cyflogadwyedd arbenigol, gyda 10 yn sicrhau cyflogaeth barhaol gydag

IKEA. Gan adeiladu ar hyn, ffurfiwyd partneriaethau newydd gydag Admiral, PwC, a SEWSCAP.

Parhaodd ein hymrwymiad i gydweithio yn gadarn wrth i ni gryfhau perthnasoedd â sefydliadau allweddol, gan gynnwys Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Caerdydd i Mewn i Waith, Coleg Caerdydd a'r Fro, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (CLILC), a Llywodraeth Cymru. Roedd ein hymdrechion yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau fel Noddfa yn y Senedd, ffeiriau swyddi i ffoaduriaid o Afghanistan ac Wcrain ar draws De Cymru, a gweithdai hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth "Byddwch Eich Boss Eich Hun" yn Rhondda Cynon Taf, mewn cydweithrediad â Purple Shoots. Yn ogystal, trwy bartneriaethau â Chronfeydd Hyfforddiant Adibi a chynllun Hepgor Ffioedd Prifysgol Caerdydd, hwyluson ni fynediad ffoaduriaid at gyrsiau galwedigaethol, gan greu llwybrau at annibyniaeth economaidd.

Parhaon ni i helpu ceiswyr lloches i wella eu sgiliau Saesneg trwy wersi EOSL a gynhaliwyd yn ein swyddfeydd yn ogystal ag atgyfeiriadau i gyrsiau achrededig yng ngholegau REACH. Yn ogystal, rhannon ni wybodaeth am astudio anffurfiol a chysiau ar-lein.

Gwirfoddoli: Haelioni

55 o wirfoddolwyr

**Ers 2019, rydym wedi
cyflogi 23 o
gyn-wirfoddolwyr fel
staff**

Fel llawer o sefydliadau elusenol, byddai'n amhosibl i ni gyflawni popeth a wnawn heb ein gwirfoddolwyr gwyh, ac mae llawer ohonynt yn geiswyr lloches a ffoaduriaid presennol neu flaenorol. Mae'n destament i'w sgiliau, a'n perthynas â nhw, fod cymaint o'n gwirfoddolwyr wedi cael eu cyflogi gan ein partneriaid unwaith iddynt dderbyn yr hawl i weithio.

Ym mis Ionawr 2023, roeddem yn falch o gael ein hailachredu â'r rhaglen Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli, gydag ychydig iawn o feysydd wedi'u hargymell i'w gwella neu eu datblygu. Ond nid ydym yn eistedd ar ein rhwyfau, ac rydym wastad yn chwilio am ffyrdd o wella effeithlonrwydd ein gweithrediadau a chyfoethogi profiadau ein gwirfoddolwyr cymaint ag y maent yn ein cyfoethogi ni.

Mae ein holl wirfoddolwyr yn cael cyfarfodydd Cymorth a Goruchwylio

rheolaidd, sy'n arbennig o ddefnyddiol i'n gwirfoddolwyr sy'n ceisio lloches gan eu bod yn eu paratoi ar gyfer arferion tebyg wrth ymuno â'r gweithlu. Rydym yn dangos ein gwerthfawrogiad o'n gwirfoddolwyr trwy raglen o wobrau, anrhegion, tystysgrifau cydnabyddiaeth, a digwyddiadau cymdeithasol megis partïon, gemau rygbi ac arddangosfeydd golau dros y gwyliau. Fel cymhelliant ychwanegol, gwahoddir gwirfoddolwyr i fynychu ein holl gyfleoedd hyfforddiant, ac rydym yn darparu mynediad at hyfforddiant ac achrediad gan gyrff allanol, megis cwrs Dehongli Gwasanaeth Cyhoeddus Prifysgol Caerdydd. Mae'r mathau hyn o weithgareddau yn gwneud i wirfoddolwyr deimlo'n arbennig, ac hefyd yn rhoi sgiliau gwerthfawr iddynt ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol tra'n eu galluogi i gysylltu â'u cyfoedion ar y tîm gwirfoddoli a rhwydweithio â darpar gyflogwyr. Nid ydym byth yn hapusach na phan fydd gwirfoddolwr yn rhoi gwybod i ni ei fod wedi dod o hyd i swydd gyflogedig!



“

Y pleser yw helpu pobl eraill, rhoi yn ôl i'r gymuned Gymraeg, a chynorthwyo'r rhai sydd mewn sefyllfa debyg i mi fy hun fel ceiswyr lloches. Rwy'n frwdfrydig am waith tîm, fel sy'n digwydd yma, gan ei fod yn gallu cyflawni cymaint.

”

- Gwirfoddolwr gyda Phrofiad Bywyd

A man with dark, curly hair and a goatee, wearing a dark suit jacket over a light blue shirt, stands at a white podium. He is smiling and looking towards the camera. His hands are resting on the podium. A microphone is positioned in front of him. The background shows a large window with a view of a brick building with arched windows. A large, stylized rainbow graphic, consisting of multiple parallel wavy lines in shades of red, orange, yellow, green, and blue, is overlaid on the left side of the image.

Ymgysylltu a Dylanwadu



Wythnos Ffoaduriaid Cymru: Cysylltiad

Cynhaliwyd Wythnos Ffoaduriaid Cymru 2022 rhwng 20 a 26 Mehefin o dan y thema lachau. I goffau Wythnos y Ffoaduriaid a sicrhau ei hetifeddiaeth, cynhyrchon ni fideo, sydd bellach wedi'i fewnosod ar hafan ein gwefan. Cafodd yr holl fideo eu ffilmio yn ystod Wythnos Ffoaduriaid 2022.

Gyda'n partneriaid, buom yn ymwneud â nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus, gan gynnwys y canlynol:

Daeth cynulleidfya wych i ddigwyddiad barddoniaeth a llenyddiaeth **Llyfrau Hafan**, gan ddenu **mwyafrak 90** o fynychwyr.

Derbyniodd **Cymdeithas Cwrdaidd Cymru Gyfan**, mewn cydweithrediad â Chyngor Ffoaduriaid Cymru, **dros 300 o westeion** mewn digwyddiad a oedd yn cynnwys dawnsio, canu, barddoniaeth, bwyd a gweithgareddau dathlu eraill. Roedd Jane Rathbone, Aelod o'r Senedd dros Ganol Caerdydd, yn bresennol. Roedd yr ieithoedd a gynrychiolwyd yn y digwyddiad yn cynnwys Cwrdeg, Iran, Arabaidd, Tyrceg a Chymraeg. Gwnaed ymdrechion arbennig i gynnwys

gwesteion â phroblemau symudedd a gwneud iddynt deimlo'n groesawgar ac yn rhan o'r digwyddiad.

Denodd perfformiad **Gŵyl Theatr Awyr Agored Caerdydd dros 200** o bobl. Ymhlith y gwesteion arbennig roedd y Brif Weinidog, Mike Drakeford, Uchel Siryf De Morgannwg Rosaleen Moriarty-Simmonds, Arglwyddes Faeres Caerdydd Anne Hinchey, y Cyngorydd Graham Hinchey, a'r Aelod Senedd Julie Morgan.

Denodd digwyddiadau **Cymdeithas Ladin Iberia 157 o bobl o 10 cenedligrwydd gwahanol**, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid o America Ladin.

Croesawodd **Llyfrgell Ganolog Caerdydd** geiswyr lloches a ffoaduriaid i fyd y llyfrgell. Gwnaed ymdrechion allgymorth arbennig i ymgysylltu â chymunedau Afghanistan a Wcrain, gydag aelodau o'r gymuned leol wrth law i groesawu ac integreiddio'r ddau grŵp.

Gwobrau Cenedl Noddfa: Y Llais Tu Fewn

Partneriaid: PwC, Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, S4C, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Prifysgol Caerdydd, Bad Wolf Productions

**Enillwyr a thri yn ail
mewn wyth categori
noddedig**

**Mwy na 100 o
fynychwyr**

**Sylw yn y cyfryngau
gan S4C**

Ar 29 Mawrth 2023, cynhaliwyd ail ddigwyddiad Gwobrau Cenedl Noddfa yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Gyda'r thema "Y Llais Tu Fewn", ac wedi'i chefnogi gan brif noddwr PwC a 15 o noddwyr eraill, roedd y noson ddisglair, llawn gwenu hon yn cydnabod llwyddiannau anhygoel ceiswyr lloches a ffoaduriaid mewn wyth categori noddedig: Menyw y Flwyddyn, Athletwr y Flwyddyn, Cyfraniad i'r Celfyddydau,

Dysgwr Saesneg a Dysgwr Chymraeg, Gwirfoddolwr y Flwyddyn, Ysbryd Entrepreneuriaidd, Arweinydd y Dyfodol a Gwobr Cenedl Noddfa. Derbyniodd pob un o'r enillwyr a'rc bobl a ddaeth yn ail blac personol, a chafodd y gwobrau eu ffilmio gan ein partner S4C.

Mae'r gwobrau blynyddol hyn yn chwarae rhan bwysig wrth atgyfnerthu safle Cymru fel Cenedl Noddfa ac yn amlygu'r heriau sy'n cael eu hwynebu gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gan ddefnyddio'r gwobrau fel llwyfan, rydym yn eiriol dros bolisiau ac arferion sy'n cynnal hawliau ac urddas ceiswyr lloches yng Nghymru ac yn newid y sgwrs gyhoeddus ynghylch ceiswyr lloches, sy'n canolbwyntio'n rhy aml ar tereoteipiau negyddol, dad-ddyneiddiol.

Drwy arddangos mentrau a straeon llwyddiannus, rydym yn gobeithio ysbrydoli pawb i gymryd rhan a chydweithio i wneud Cymru yn lle mwy croesawgar a chynhwysol i unigolion sydd wedi'u dadleoli.





Chwalu'r Chwedlau: Gwirionedd

Partner: Sefydliad Moondance.

**Mynychodd 370+
o bobl 7 gweithdy
Chwalu'r Chwedlau**

Mae ein gweithdai chwalu chwedlau yn targedu gwybodaeth anghywir a stereoteipiau negyddol am ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy gywiro'r cofnod, ateb cwestiynau, a rhannu ffeithiau a data. Yn 2022-23, cyflwynon ni weithdai chwalu chwedlau i fyfyrwyr ysgol uwchradd a myfyrwyr prifysgol, aelodau o bleidiau gwleidyddol, ac aelodau o sefydliadau merched a chlybiau dynion trefi bach. Rydyn ni'n credu yng ngrym newid hyd yn oed safbwynt un person a'i annog i gwestiynu'r hyn maent yn ei glywed yn eu bywyd ac yn darllen ar gyfryngau cymdeithasol.

Dylanwadu ar Randdeiliaid Allweddol: Gwelededd

Rhoddwyd **16** o gyfweiliadau i'r wasg

Cynhaliwyd **10** cyfarfod penodol gyda swyddogion etholedig

Mae siarad â rhanddeiliaid allweddol, swyddogion etholedig, unigolion sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyfryngau yn rhan bwysig o'n gwaith. Rydym yn defnyddio'r cyfleoedd hyn i godi ymwybyddiaeth am effaith bywyd go iawn polisiâu'r llywodraeth, ac i drafod atebion. Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn cynnwys pobl â phrofiad o fyw fel ceiswyr lloches yn y cyfarfodydd a'r sgysiau hyn, gan eu bod mewn sefyllfa well nag unrhyw un arall i egluro sut mae penderfyniadau'n effeithio arnynt.

Yn ystod y cyfnod hwn, ymatebon ni i fwy na 30 o geisiadau gan y cyfryngau, gan gynnwys caniatáu neu hwyluso 16 o gyfweiliadau ar bynciau'n ymwneud â mudo gyda phrif gyfryngau gan gynnwys y BBC, ITV, S4C a Wales Online. Roeddem hefyd wedi cwrdd â'r swyddogion canlynol:

Ruth Jones, AS
Julie Morgan, MS
Natasha Asghar, MS
Arglwydd Faer a Maeres Caerdydd
Sarah Murphy, MS
Luke Fletcher, MS
Julie Sangani, Cyngor Caerdydd
Joel James, MS
Huw Thomas, Cyngor Caerdydd
Jamie Green, Cyngor Caerdydd
Stephen Kinnock, AS





Cyllid ac
Incwm



Codi Arian: Cynladwyedd

Yn 2022-2023, cynyddodd ein hincwm o
£1,627,719 i **£1,649,580**.

Ein Grantiau:

Llywodraeth Cymru	729,113
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol	96,622
Cyngor y Celfyddydau	10,780
Prosiect CAF	38,068
Sefydliad Oak	128,631
Cynllun Partneriaeth y Drydd Sector WCVA	3,501
Prosiect Gwirfoddoli WCVA	18,750
WCVA TSRF	26,129
Sefydliad Cymunedol Cymru	49,792
BBC Plant Mewn Angen	31,693
Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru	5,388
Di-enw	50,000
Refugee Action	8,897
Admiral	45,936
Comic Relief	37,167
Cymru a'r Gorllewin	7,816
Y Grid Cenedlaethol	9,958
Land Aid	5,000
Kickstart yr Adran Gwaith a Phensiynau	4,341
Race Council Cymru	2,667
Gwent TNLCF	65,328
Garfield Weston	33,000
IKEA	47,630



Prosiectau Arbennig:

Cronfa Mwyafrif Byd-eang

Partneriaid: BAWSO, Race Council Cymru

(Darparwyd £254,400 i sefydliadau cymunedol dan arweiniad pobl BAME yng Nghymru)

Mae'r trydydd sector yng Nghymru wedi gweld gostyngiad enfawr mewn cyllid ac mae cynhyrchu incwm wedi dod yn anoddach fyth o dan y pwysau ychwanegol a achosir gan bandemig Covid a'r argyfwng costau byw.

Yn 2022 cawsom gyfle gwyh i weithio mewn partneriaeth â Race Council Cymru a Bawso i lansio'r Gronfa Mwyafrif Byd-eang a gyflwynodd arian drwy raglen grantiau newydd ar ran Comic Relief (a ariannwyd ar y cyd gan y Clothworker's Foundation a Sefydliad Esmée Fairbairn) a'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol.

Trwy'r bartneriaeth hon, sicrhawyd bod cyllid ar gael i sefydliadau cymunedol Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru sy'n cefnogi unigolion risg uwch y mae COVID-19 yn effeithio'n negyddol arnynt a'r cyfyngiadau cysylltiedig.

Prosiect adnewyddu swyddfeydd IKEA

Partner: IKEA

(Canlyniad: gofod swyddfa mwy dymunol, ynni-effeithlon a chroesawgar i staff a chleientiaid.)

Cynyddodd y galw am ein gwasanaethau yn esbonyddol yn 2022-23, yn enwedig gydag argyfwng yr Wcrain, a daeth gan adborth staff a chleientiaid nad oedd y swyddfa'n addas at y diben. Roedd yr adeilad yn ddrafftig, y gegin a'r toiled yn gyfyng ac yn dywyll, a'r waliau heb unrhyw liw nac addurniadau. Roedd dodrefn ein swyddfa yn amrywiaeth o eitemau blinedig a roddwyd i ni dros y 30 mlynedd diwethaf, gan gynnwys desgiau anghydnaws, cadeiriau a oedd wedi torri, a byrddau sigledig. Nid oedd yn amgylchedd proffesiynol ei olwg, ac nid oedd yn gwneud dim i ysbrydoli na hyrwyddo lles ymhlith staff neu gleientiaid. Roeddem mewn dirfawr angen gofod mwy amlwyrpas, un a fyddai'n gwneud i geiswyr lloches, staff a gwirfoddolwyr deimlo'n gyfforddus wrth gyfleu delwedd fwy proffesiynol i bartneriaid a rhoddwyr.

Fe wnaeth ein cydweithrediad

ag IKEA adfywio ein swyddfa yng Nghaerdydd, gan greu amgylchedd mwy croesawgar, cyfforddus ac eang. Creodd gwelliannau'r prosiect, o dderbynfa estynedig a mannau gwaith achos i'r gegin fodern a gwell goleuadau, weithle mwy diogel, iachach a mwy bywiog. Galluogodd cefnogaeth hael gan Screwfix a Migration Exchange i ni uwchraddio'r lle gyda gwydr dwbl ynni-effeithlon, gan alinio â'n nodau cynaliadwyedd.

Mae'r trawsnewid hwn yn ymgorffori ein hymrwymiad i greu gofod cynhwysol, croesawgar ar gyfer ein tîm a'n cleientiaid. Estynnwn ddiolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr ymroddedig y bu eu hymdrechion ychwanegol yn hwyluso'r trawsnewid, o symud dodrefn i reoli gwasanaethau yn ystod y gwaith adnewyddu. Sicraodd eu hymrwymiad cyn lleied â phosibl o aflonyddwch, gan ganiatáu i ni barhau i gefnogi ein cymuned wrth wella ein gweithle.

“Diolch i chi am ddarparu'r flanced hon i fy mhlentyn a fi. Rydych chi a'ch tîm bob amser wedi bod yn gefnogaeth wych i mi.

Ruc Thi (Fietnam)



Prosiect Cynhesrwydd a Chartref

Partneriaid: Cronfa Materion Cymunedol y Grid Cenedlaethol

(Helpwyd 150 o gleientiaid i arbed arian a goroesi'r gaeaf Darparwyd 100+ o becynnau twym)

Mae argyfwng costau byw y DU wedi cael effaith andwyol ar geiswyr lloches, sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd hyd yn oed mewn tywydd cynnes. Ym mis Rhagfyr 2022, lansiwyd ein prosiect Cartref a Chynhesrwydd cyntaf. Cefnogodd y fenter hon dros 150 o geiswyr lloches gan roi mynediad iddynt at becynnau cynnes, cyngor arbed ynni, a chyfeirio at sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth yn ystod oerfel y gaeaf.

Cydlynwyd y prosiect gan ein tîm gwaith achos a brysbennu profiadol, a helpodd i nodi a chynorthwyo ein cleientiaid mwyaf agored i niwed ac ynysig. Dosbarthodd ein tîm fwy na 100 o becynnau cynnes i gleientiaid diolchgar, llawer ohonynt yn deuluoedd â phlant ifanc. Yn ogystal, darparon ni gyngor ar dlodi tanwydd a chyfeirio at wasanaethau eraill mewn pump o'n hieithoedd cymunedol mwyaf cyffredin: Wcreineg, Arabeg, Cwrdeg, Sorani, a Farsi.

Neges gan ein Prif Swyddog Gweithredol

Drwy gydol blwyddyn brysur, mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi wynebu heriau yn uniongyrchol ac wedi llwyddo i gyrraedd cerrig milltir anhygoel. O gynorthwyo ffoaduriaid o Wcrain yn dilyn goresgyniad Rwsia i gynnal digwyddiadau dylanwadol fel Gwobrau Cenedl Noddfa a Noddfa yn y Senedd, mae ein hymdrechion wedi bod yn wirioneddol werth chweil.

Wrth i'r goresgyniad gan Rwsia o'r Wcrain barhau, fe wnaethom eiriol yn gyflym dros gefnogaeth frys, gan arwain at lansio ein prosiect Wcrain Cymru gyfan, gan gynorthwyo 1,369 o unigolion erbyn diwedd y flwyddyn. Yn hollbwysig, llanwodd cyllid Llywodraeth Cymru fwlch gwasanaeth hanfodol yn ystod cyfnod trawmatig i lawer o unigolion sydd wedi'u dadleoli.

Roedd amrywiaeth a thwf yn nodi ein cynnydd mewnol, gyda dros 39% o'n

staff wedi cael profiadau byw a 50% â threftadaeth fudol. Cymerodd ein tîm hyfforddiant amrywiol, gan ehangu ein sgiliau i wasanaethu'r gymuned yn well. Ar ôl Covid, dathlon ni ein hundod gyda diwrnod adeiladu tîm cofiadwy yn Taff Valley Adventure.

Fe wnaethom groesawu newid mewn llywodraethu, gan groesawu ymddiriedolwyr newydd wrth ymrwymo i wella amrywiaeth ein bwrdd. Roedd eiriolaeth yn parhau i fod yn hollbwysig wrth i ni dynnu sylw at effaith polisiâu fel Cynllun Rwanda drwy ymgysylltu â'r cyfryngau, gan gynnwys cyfweiliadau effeithiol ar y BBC ac ITV.

Ffynnodd ein cydweithrediadau, fel y gwelir yn ein Rhaglen Grantiau Mwyafrif Byd-eang lwyddiannus, gan ddosbarthu £250K i Grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Yn ogystal, arweinon ni

ar ddigwyddiadau fel Noddfa yn y Senedd, gan gynnwys dros 70 o gyfranogwyr ar gyfer trafodaethau ar amddifadedd.

Roedd sicrhau cyllid sylweddol ar gyfer swydd Cydgysylltydd Clymblaid Ffoaduriaid mewn partneriaeth â'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn hollbwysig, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i eiriolaeth ar y cyd. Roedd mabwysiadu Cynllun Strategol cynhwysfawr, wedi'i lywio gan fewnbwn rhanddeiliaid, yn atgyfnerthu ein cyfeiriad sefydliadol.

Daeth gwelliannau i'r seilwaith, llwyddiannau fel y Nod Ansawdd Elusennol Dibynadwy, ymdrechion codi arian llwyddiannus, a chydabyddiaeth yn y Gwobrau Elusennol ar gyfer ein ffilm ddylanwadol, "Mae Cymru'n Genedl Noddfa," yn ben ar flwyddyn bwysig. Y pinacel oedd ein Gwobrau Cenedl


Noddfa, gan anrhydeddu 12 o unigolion rhagorol sy'n ymgorffori ein gwerthoedd. Ni fyddai unrhyw un o'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ddiwyro ein cymuned - ein cyllidwyr, rhoddwyr, gwirfoddolwyr, staff, rhanddeiliaid, a chefnogwyr. Estynnwn ein diolch o galon am groesawu ffoaduriaid gyda ni.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn fawr i'n Cadeirydd Harry Iles am ei arweiniad strategol, a'i feddylfryd empathig. Mae wedi ein helpu i dyfu tra'n aros yn driw i'n gwerthoedd.



Andrea Cleaver,
CEO





0808 196 7273

